

Dylunio Peirianeg Ddiwydiannol (Mecanyddol) - BEng (Anrh) (Prentisiaeth Gradd) (Rhan Amser)

Cynlluniwyd y rhaglen hon i uwchsgilio gweithwyr presennol sydd wedi cwblhau astudiaeth lefel 2/3/4 yn flaenorol, naill ai fel prentisiaid neu fel arall. Mae gofynion mynediad arferol i'r rhaglenni hyn yn berthnasol. Cynigir y rhaglen hon mewn partneriaeth â Phrifysgol Wrexham Glyndwr.

Gofynion Mynediad

Mae meini prawf mynediad yn manylu ar gynnig nodweddiadol ond mae'r Coleg yn ystyried pob cais yn unigol sy'n golygu y gallem wneud cynigion yn seiliedig ar gymwysterau, proffil personol a phrofiad. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglyn â'ch cynnig, cysylltwch â'n Tîm Derbyniadau.

Cynnig nodweddiadol: 2 Lefel A ar Radd E neu broffil PP / PPP o gymhwyster BTEC Lefel 3 a phum TGAU ar Radd C neu uwch, i gynnwys Saesneg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfatebol). Mae cymhwysedd ar gyfer y rhaglen hon hefyd yn dibynnu ar ofynion ychwanegol gan gynnwys bod yn weithiwr cyflogedig mewn rôl addas yn y sector a gweithio yng Nghymru am o leiaf 51% o'r amser gwaith.

Rhagolygon Gyrfa

Gallwch symud ymlaen i amrywiaeth o gyrsiau ôl-raddedig sy'n gysylltiedig â pheirianeg. Mae gan raddedigion ragolygon cyflogaeth mewn ystod eang o ddisgyblaethau peirianeg, er enghraifft: Peirianeg Gweithgynhyrchu Uwch, Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianeg, Rheoli Gweithrediadau Peirianeg a Rheoli Prosiectau Peirianeg.

Modiwlau'r cwrs

Gall modiwlau Blwyddyn 1 gynnwys:

- Technegau Peirianeg Dadansoddol
- Peirianeg Drydanol
- Peirianeg Fecanyddol
- Dysgu Seiliedig ar Waith
- Safonau Peirianeg, Rheoli Busnes a Gweithrediadau

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chweraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre





AdvanceHE



- Dylunio a Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD)

Gall modiwlau Blwyddyn 2 gynnwys:

- Prosiect Diwydiannol
- Technegau Rheoli Dadansoddol
- Gweithgynhyrchu Modern, Cynaliadwyedd a Diwydiant
- Deunyddiau a Phrosesau
- Dylunio System Fecanyddol
- Peirianeg gyda Chymorth Cyfrifiadur

Gall modiwlau Blwyddyn 3 gynnwys:

- Prosiect
- Rheoli'r gweithlu ac Ymgysylltu ac Ymrwymiad
- Systemau Cynnal a Chadw a Diogelwch
- Modelu ac Efelychu Peirianeg
- Dylunio Cynnyrch

Aseiad

Bydd y rhaglen yn cynnwys darlithoedd, gweithdy ymarferol a sesiynau tiwtorial. Bydd yn rhaid i chi gwblhau aseiniadau ysgrifenedig wrth i chi symud ymlaen trwy'r rhaglen. Mae gan nifer o fodiwlau arholiadau ac mae angen prosiect ymchwil.

DULL ASTUDIO

PT

LLEOLIAD HYD Y CWRS

3Y

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chweraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre

